

YSGOL SYR HUGH OWEN Caernarfon



Cylchlythyr y Pennaeth, GORFFENNAF 2018

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Dyma ni wedi cyrraedd diwedd tymor prysur a llwyddiannus iawn arall yng nghalendr Ysgol Syr Hugh Owen. Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn hon, hoffwn achub ar y cyfle i'ch atgoffa o'r holl brofiadau anhygoel mae eich plant wedi eu derbyn, am holl llwyddiannau unigolion, ac am yr holl llwyddiannau rydym ni wedi eu dathlu fel ysgol eleni. Hoffwn hefyd, nodi ein diolch diffuant a'n gwerthfawrogiad i chi fel rhieni/gwarcheidwyr am eich cefnogaeth parod a chyson i'r ysgol sy'n hwyluso'n gallu i gynnig y profiadau amrywiol i'n disgyblion a chael blasu'r llwyddiannau hyn. Eleni, rydym ni'n ymfalchïo ein bod wedi:

Hyrwyddo lechyd a Lles Disgyblion a Staff:

- Parhau i arwain yn genedlaethol ar faes lechyd a Lles o'r Cwricwlwm am Oes trwy gynllunio cwricwlwm thematig arbennig ar gyfer ein disgyblion Blwyddyn 7 eleni fydd yn cael ei rannu'n genedlaethol;
- Ymrwymo i ymgyrch newydd y Llywodraeth i greu Ysgolion Sydd Yn Annog trwy wella amgylchedd a systemau'r ysgol er lles y staff a'r disgyblion a sicrhau ein bod yn gwrando ar lais y dysgwr a'r staff yn gyson.
- Cyflwyno Cynllun Mentora BI 11, a oedd yn sicrhau bod bob disgybl targed a bregus BI11 yn cael sylw unigol ychwanegol gan aelod o'r Uwch Dîm Reoli yn wythnosol cyn eu arholiadau TGAU;
- Cefnogi nifer o gystadlaethau chwaraeon lle mae disgyblion wedi bod yn llwyddiannus dros ben gyda sawl unigolyn/ tîm yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Ysgol, y Cylch a'r Sir yn y rowndiau nesaf, gan gynnwys rhai disgyblion yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru mewn gwahanol gystadlaethau Prydeinig;
- Trefnu gweithgareddau allgyrsiol amrywiol ar gyfer disgyblion o bob oedran e.e.ymweliadau pysgota, cyngerdd telyn, taith Ffiseg i Jodrell Bank, dathlu Diwrnod Shw Mae Su' Mae, taith rygbi i Gaerdydd, teithiau pêl-droed i Fanceinion ac i Everton, teithiau pêl-fasged i'r Amwythig, teithiau rygbi i R.G.C. Bae Colwyn, taith i'r Unol Daleithiau i sgïo, taith bêl-droed i Fadrid, taith Ffrangeg a Hanes i Normandi, a thaith y Chweched Dosbarth i'n ysgol bartner yn Sambia;

Casglu Arian at Achosion Da:

- Casglu arian at achosion da niferus gan gynnwys Cronfa Alder Hey Kaiden Pritchard, ein ysgol bartner yn Sambia, Plant Mewn Angen, Cŵn Tywys, ac i gronfa Tŷ Gobaith;

Dathlu Diwylliant Cymru:

- Llwyddiant ysgubol yn Eisteddfodau Genedlaethol yr Urdd gyda sawl unigolyn a chôr yn chwifio baner yr ysgol ar lwyfan yr Eisteddfod. Cofiw'n hefyd am ymroddiad ddi-flino'r nifer fawr o gystadleuwyr eraill a dderbyniodd glod mawr am eu perfformiadau yn yr Eisteddfodau Cylch, Sir a'r Genedlaethol er na lwyddon nhw i gael llwyfan yn y Genedlaethol eleni;
- Ail-gyfodi'r Eisteddfod Ysgol yn llwyddiannus iawn a chynnal cyngerdd Sêr yr Eisteddfod gyda'r nos er mwyn rhannu'r profiadau gyda'r rhieni ac aelodau eraill y gymuned.
- Trefnu Gigiau Cymraeg yn Neuadd yr ysgol er mwyn ceisio annog disgyblion i ymfalchïo yn eu diwylliant;
- Sefydlu Cyngor Iaith er mwyn sicrhau bod llais y disgybl yn flaenllaw wrth hyrwyddo Strategaeth yr Iaith Gymraeg yn yr ysgol;

Datblygu Sgiliau Amrywiol:

- Rhoi cyfle i bob disgybl Blwyddyn 11 gael cymhwyster Bagloriaeth Cymru, Sgiliau Byd Gwaith, Gweithio Fel Tîm, ac E.C.D.L.(European Computer Driving Licence) i geisio eu paratoi nhw'n well ar gyfer byd gwaith neu ar gyfer astudiaethau pellach.
- Cynnal sawl Diwrnod Sgiliau arbennig a oedd yn llawn profiadau amrywiol a gwerthfawr;
- Trefnu taith gerdded noddedig i ddisgyblion blynyddoedd 7-9 i godi arian at ein ysgol bartner yn Sambia;

Cryfhau Partneriaethau:

- Hwyluso trefniadau i rieni/gwarchodwyr gysylltu gyda'r ysgol drwy sefydlu cyfrifon Twitter, Facebook a School Comms;
- Croesawu sawl ymwelydd allanol gan gynnwys beirdd, llenorion, gwleidyddion, pobl busnes, arbenigwyr a chantorion i'r ysgol i gyfoethogi profiadau dysgu ac addysgu'r disgyblion;
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned er mwyn cryfhau ymdeimlad cymunedol yr ysgol e.e. bandiau'r ysgol yn perfformio yn y gymuned ac yn canu carolau yn y Galeri;
- Cyfarfod yn gyson gyda'r ysgolion cynradd sy'n ein bwydo er mwyn ceisio hwyluso trefniadau pontio i'r disgyblion a'u rhieni. Cynhaliwyd dau ddiwrnod pontio llwyddiannus iawn gyda disgyblion Blwyddyn 6 y Dalgylch, a diwrnod pontio Aml-Gamp hwyliog iawn o dan arweiniad ein disgyblion Blwyddyn 12 i ddisgyblion Blwyddyn 5 y dalgylch yn ddiweddar a dderbyniodd glod mawr gan bawb;

Rhannu Arferion Da:

- Cyhoeddi 'Sêr yr Wythnos' bob dydd Gwener i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n staff yn gyhoeddus yn wythnosol;
- Annog nifer cynyddol o staff i rannu arfer dda yn fewnol ac yn allanol, trwy -gyflwyno mewn sesiynau hyfforddiant mewn swydd ysgol gyfan, gynnis cymorth i ysgolion eraill ar gais GwE, bod ar weithgorau sirol a rhanbarthol, a chwblhau hyfforddiant Athrawon Rhagorol a chysiau arweinyddol cenedlaethol.

Adroddiadau Thematig Estyn:

- Yn dilyn cael dau ymweliad rhannu arferion da llwyddiannus iawn gan Arolygwyr Estyn, mae dau adroddiad am arferion da Ysgol Syr Hugh Owen yn cael eu rhannu'n genedlaethol yn adroddiadau Estyn.

Nodir yn yr adroddiad Gwella Addysgu (Mehefin 2018) bod:

'gwella addysgu yn brif flaenoriaeth yn y cynllun gwella ysgol gyfan' a bod yr ysgol yn, ***'creu awyrgylch sy'n galluogi'r ysgol i wthio ffiniau addysgu a dysgu'***.

y pennaeth dros dro yn, 'credu'n gryf fod pob disgybl yn haeddu addysgu o ansawdd uchel a lefelau uchel o gymorth ac arweiniad.'

'arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar ddathlu arfer dda mewn addysgu ac asesu ar draws yr ysgol,' a bod y ***'disgyblion a gyfwelwyd fel rhan o'r adolygiad thematig hwn yn rhoi canmoliaeth fawr i'r newidiadau yn ansawdd yr addysgu. Fe wnaethant gyfeirio'n benodol at athrawon yn dod â'r dysgu'n fyw trwy dasgau diddorol a difyr a oedd yn eu galluogi i feddwl am bethau drostynt eu hunain.'***

a bod yr ysgol, mewn cyfnod cymharol fyr, ***'wedi llwyddo i wella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol' gydag 'athrawon wedi ymdrin yn frwdfrydig â blaenoriaeth yr ysgol i 'wthio'r ffiniau addysgu a dysgu'. O ganlyniad i'r ymdrech newydd ac uchelgeisiol hon i wella, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi parhau i fod yn dda o leiaf am y drydedd flwyddyn yn olynol ac mae safonau lles wedi gwella'n sylweddol dros yr un cyfnod.'***

Marc Ansawdd Gyrfa Cymru:

- Llwyddodd yr ysgol i dderbyn Marc Ansawdd Gyrfa Cymru'n ddiweddar am yr holl waith sydd wedi cael ei wneud i sicrhau profiadau galwedigaethol amrywiol, cyngor gyrfael priodol, a

chynllunio llwybrau dysgu addas i'n disgyblion. Hoffem ddiolch yn arbennig i Ms Hanks am ei hymroddiad a'i holl waith caled yn y maes.

Fel y gwelwch uchod, mae'r holl weithgareddau a llwyddiannau hyn yn brawf cadarn o'r holl waith clodwiw iawn sy'n mynd ymlaen yma yn yr ysgol er mwyn sicrhau bod Ysgol Syr Hugh Owen yn ysgol gynhwysol a chymunedol lle mae'r gallu i hunan wella'n amlygu ei hun fwy fwy'n ddyddiol.

Pawb yn gwella gyda'n gilydd!

Gwisg Ysgol

Hoffwn ddiolch i'r holl rieni sydd wedi bod yn cefnogi'r ysgol trwy sicrhau bod y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn eu gwisg ysgol gywir yn ddyddiol. Carwn atgoffa pob rhiant y byddwn yn disgwyl y safon uchaf o wisg ysgol gan bawb yn dilyn Gwyliau'r haf a byddwn yn gweithredu'n gyson a theg i sicrhau hyn. Diolchaf i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth. Cysylltwch â'r ysgol petai unrhyw anhawster yn codi wrth geisio prynu gwisg. Diolch am eich cydweithrediad.

Offer Disgyblion

Yn dilyn pryder am ddiffyg offer rhai disgyblion, bydd yr ysgol yn archebu cas pensiliau gyda'r offer angenrheidiol, oni bai am gyfrifiannell, ynddynt i bob disgybl Bl.7-11 ar gyfer mis Medi. Bydd rhaid i'r disgyblion ddod â'r cas pensiliau i bob gwers a bydd disgwyl i'r disgyblion adnewyddu unrhyw offer coll.

Dyddiadau Pwysig i'r dyddiadur

- **Gorffennaf 20fed**– Diwedd tymor
- **Medi 3ydd** – Ysgol yn ail-agor i staff
- **Medi 5ed** - Ysgol yn ail-agor i ddisgyblion
- **Medi 6ed** – Noson Wobrwyo 2017 -2018
- **Medi 11eg**- Tynnu lluniau Bl.7 a 9
- **Medi 11eg**- Cyfarfod Cymdeithas Rhieni ac Athrawon 'Ffrindiau Syr Hugh'- **DEWCH YN LLU!**
- **Medi 18fed**- Cyflwyniad i rieni a disg. Bl 12
- **Medi 25ain**- Cyflwyniad UCAS i rieni a disg. Bl 13
- **Hydref 5ed**- HMS Gwynedd ar y cyd- Dim ysgol i ddisgyblion
- **Hydref 8fed**- Eisteddfod Ysgol
- **Hydref 16eg**- Noson Rieni Blwyddyn 11
- **Hydref 23ain**- Noson Agored
- **Hydref 29ain-Tachwedd 2il**- Gwyliau Hanner Tymor

Bydd rhagor o ddyddiadau allweddol yn cael eu rhannu gyda chi yn fuan.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth parod. Cofiwch am Twitter/Facebook am y newyddion diweddaraf ac mae linc i'r Seren Syr Hugh diweddaraf ac i galendr yr ysgol ar ein gwefan i'ch sylw.

Dymuniadau Gorau am wyliau haf hapus i chi gyd!

Yn gywir,

Mrs Parry Jones
(Pennaeth Mewn Gofal)